**Lesley Griffiths AS**
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig

25 Tachwedd 2020

Annwyl Weinidog

**Rheoliadau Amaethyddiaeth (Cymalau Enghreifftiol ar gyfer Cyfarpar Sefydlog) (Cymru) 2019**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 3 Tachwedd mewn cysylltiad â Rheoliadau Amaethyddiaeth (Cymalau Enghreifftiol ar gyfer Cyfarpar Sefydlog) (Cymru) 2019, lle'r ydych yn dweud:

"Yn dilyn canlyniad yr ymgynghoriad ar drwsio a chynnal a chadw eich cyfarpar sefydlog a iawndal diwedd tenantiaeth, nid fy mwriad oedd cynnwys trwsio ac adnewyddu draeniau caeau ac argloddiau llifogydd fel rhwymedigaethau newydd o fewn y rheoliadau diwygio."

Mae'n amlwg na chafodd dim gwrthwynebiad ei nodi i gynnwys y materion hyn yn ystod ymgynghoriad cynharach Llywodraeth Cymru. Nid ydych, yn eich ymateb, wedi egluro'r rhesymau dros eich penderfyniad. Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar pe gallech roi eglurhad o'r fath iddo.

Heb eglurhad gennych ynghylch eithrio'r materion hyn, mae'r Pwyllgor yn credu y dylech gyflwyno is-ddeddfwriaeth i ddiwygio Atodlen 1 paragraff 1 (2) o Reoliadau Amaethyddiaeth (Cymalau Enghreifftiol ar gyfer Cyfarpar Sefydlog) (Cymru) 2019.

Edrychaf ymlaen at eich ymateb.

Yn gywir



Mike Hedges AS
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddNHAMG@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCCERA@senedd.wales
0300 200 6565

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig**
**Minister for Environment, Energy and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our Ref: LG/425/20

Mike Hedges AS
Cadeirydd y Pwyllgor Newid yn yr Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig
Senedd Cymru

SeneddNHAMG@senedd.cymru

11 Rhagfyr 2020

Annwyl Mike

Diolch am eich llythyr dyddiedig 25 Tachwedd ynghylch Rheoliadau Amaethyddiaeth (Cymalau Enghreifftiol ar gyfer Cyfarpar Sefydlog) (Cymru) 2019.

Roedd yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad ar atgyweirio a chynnal cyfarpar sefydlog ac iawndal ar ddiwedd tenantiaeth yn gefnogol iawn i'r syniad o sicrhau mwy o gysondeb gyda'r drefn yn Lloegr er mwyn osgoi unrhyw ddryswch a chamddealltwriaeth o fewn y sector tenantiaethau amaethyddol. Mae hyn yn arbennig o bwysig o ran daliadau trawsffiniol gan ei fod yn lleihau unrhyw gymhlethdod gweinyddol a hefyd yn golygu nad oes angen cymorth proffesiynol ychwanegol.

Ar ôl ystyried y dystiolaeth a ddarparwyd rwyf wedi penderfynu cynnal cyfliniad rheoleiddiol a pheidio â chyflwyno rhwymedigaethau newydd o safbwynt atgyweirio systemau draenio tir a phonciau llifogydd.

Cofion

**Lesley Griffiths AS/MS**
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.